**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU**

Caiff y Cynllun hwn ei lunio o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n berthnasol i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

## 1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Telir Cyflog Sylfaenol i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, adolygir cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn flynyddol fel y'i pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Pan fydd tymor swydd Aelod yn dechrau neu'n dod i ben heblaw ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i'r Cyflog Sylfaenol yn hawl pro-rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

## 2. Cyflogau Uwch-swyddogion a Chyflogau Dinesig

2.1 Telir Cyflog Uwch-swyddog i Aelodau sy'n dal swyddi penodol fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau Cyflogau Uwch-swyddogion a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y'u pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Dim ond un Cyflog Uwch-swyddog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni ellir talu Cyflog Uwch-swyddog a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Telir y Cyflogau Uwch-swyddog a Dinesig i gyd gyda'r Cyflog Sylfaenol yn gynhwysol.

2.6 Ni chaniateir talu Cyflog Uwch-swyddog i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ag eithrio i gynnwys deiliad Cyflog Uwch-swyddog dros dro sy'n cyflenwi dros dro yn achos absenoldeb teuluol deiliad y swydd benodedig.

2.7 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Cyflog Uwch-swyddog dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) nac Awdurdod Tân ac Achub (FRA) y mae ef/hi wedi ei enwebu ar ei gyfer.

2.8 Pan fydd tymor Cyflog Uwch-swyddog neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n dod i ben ar wahân i ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i'r Cyflog yn hawl pro-rata.

## 3. Etholiad i Hepgor Hawl i Lwfans

3.1 Gall Aelod, trwy hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Priodol yr awdurdod, ddewis ildio unrhyw ran o'i hawl ef/hi i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

## 4. Diarddel Aelod

4.1 Pan fo Aelod o'r Awdurdod wedi ei ddiarddel/diarddel neu ei atal/hatal yn rhannol rhag cyflawni ei gyfrifoldebau/chyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau/dyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, bydd y rhan o'r Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw y mae ef neu hi wedi ei ddiarddel/diarddel dros dro yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

4.2 Pan fo Aelod sy'n derbyn Cyflog Uwch-swyddog yn cael ei ddiarddel/diarddel neu ei atal/hatal yn rhannol rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod, yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Cyflog Uwch-swyddog yr Aelod trwy gydol y cyfnod diarddel (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r ataliad rhannol yn ymwneud ag elfen gyfrifoldeb benodol y taliad yn unig, caiff yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

## 5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd

5.1 Pan dalwyd unrhyw gyflog, lwfans neu ffi i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan oedd yr Aelod dan sylw wedi ei:

(a) ddiarddel/diarddel neu ei atal/hatal yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod/Aelod Cyfetholedig hwnnw/honno yn unol â Rhan 3 Deddf 2000 neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno;
(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) nad oes ganddo/ganddi hawl mewn unrhyw ffordd arall i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y rhan honno o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei had-dalu.

## 6. Taliadau

6.1 Bydd y Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth yn talu pob lwfans trwy Gredyd Banc mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl flynyddol yr Aelod ar yr 28ain o bob mis, neu'r dydd Gwener agosaf os yw'r 28ain yn disgyn ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul.

6.2 Pan fydd taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl ef/hi i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

**7. Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol**

7.1 Telir cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofal dros blant neu oedolion dibynnol, neu ofyniad gofal personol, ar yr amod bod yr Aelod yn mynd i gostau wrth ddarparu gofal o'r fath wrth ymgymryd â dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.

7.2 Mae cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn gymwys mewn perthynas â dibynnydd o dan 16 oed, neu blentyn neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'r teulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth y gall yr Aelod neu Aelod Cyfetholedig ddangos bod angen gofal ar ei gyfer/chyfer. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

7.3 Gall Aelodau cymwys hawlio cyfraniad am gostau gofal a chymorth personol am gostau gwirioneddol a rhai â derbynebau, fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylid cyflwyno pob cais am y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd gan nodi amseroedd, dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Rhaid wrth dderbynebau ar gyfer trefniadau gofal anffurfiol a ffurfiol fel ei gilydd.

**8. Absenoldeb Teuluol**

8.1 Mae gan Aelodau hawl, dan ddarpariaeth Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013, i gyfnod o absenoldeb teuluol, ac yn ystod y cyfnod hwn os ydynt yn bodloni'r amodau rhagnodedig mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr Awdurdod.

8.2 Tra'n cymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau hawl i gadw cyflog sylfaenol, waeth beth fo'u cofnod presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.

8.3 Pe bai deiliad cyflog uwch-swyddog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd ef/hi yn gallu parhau i dderbyn ei gyflog/chyflog uwch-swyddog trwy gydol yr absenoldeb.

8.4 Os yw'r Awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol gwneud apwyntiad dirprwyol i gyflenwi absenoldeb teuluol deiliad cyflog uwch-swyddog, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys, os yw'r awdurdod yn penderfynu felly, i gael cyflog uwch-swyddog.

8.5 Os yw'r amnewidiad taledig yn arwain at yr Awdurdod yn mynd y tu hwnt i'w nifer uchaf o gyflogau uwch-swyddogion, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm trwy gydol cyfnod yr amnewidiad.

**9. Taliadau i gyfetholedigion**

9.1 Telir ffi ddyddiol i Gyfetholedigion (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod), ar yr amod eu bod yn Gyfetholedigion statudol sydd â hawliau pleidleisio.

9.2 Bydd taliadau Cyfetholedigion yn cael eu capio ar uchafswm sy'n gyfwerth â 15 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gellir cyfethol unigolyn iddo.

9.3 Bydd taliadau'n ystyried amser teithio i ac o fan y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

9.4 Dynodir Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fel y "swyddog priodol" a bydd ef/hi yn pennu'r amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod; telir y ffi ar sail y penderfyniad hwn.

9.5 Gall Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd benderfynu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi ei raglennu am ddiwrnod llawn a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn i bedair awr fynd heibio.

9.6 Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel un hyd at 4 awr.

9.7 Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel un dros 4 awr.

9.8 Mae'r ffi ddyddiol a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y penderfynwyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi ei nodi yn **Atodlen 1**.

9.9 Mae'r ffi ddyddiol a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer Cyfetholedigion statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel y penderfynwyd gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wedi ei nodi yn **Atodlen 1**.

## 10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

### 10.1 Egwyddorion Cyffredinol

10.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2**. Pan fydd Aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod, disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu cost-effeithiolrwydd rhoddir sylw i'r amser teithio. Gall Aelod nad yw'n teithio yn y modd mwyaf cost-effeithiol gael ei hawliad ef/hi wedi ei leihau o swm priodol.

10.3 Lle bo modd, dylai'r Aelodau rannu cludiant.

10.4 Dylai'r pellter a hawlir am dâl milltiroedd fod y siwrnai resymol fyrraf ar y ffordd o'r man gadael i'r fan lle y cyflawnir y ddyletswydd, ac yn yr un modd o fan y ddyletswydd i'r man dychwelyd.

10.5 Nodir cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth yr Aelodau yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

10.6 Pan fo Aelod yn cael ei ddiarddel/diarddel neu ei atal/hatal yn rhannol o’i gyfrifoldebau/chyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o’r Awdurdod yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed dan y Ddeddf, rhaid i’r Awdurdod ddal yn ôl lwfansau am unrhyw deithio a chynhaliaeth sy’n daladwy iddo/iddi mewn perthynas â’r cyfnod hwnnw y mae ef/hi wedi ei ddiarddel/diarddel neu wedi ei atal/hatal yn rhannol.

**11. Teithio mewn Cerbyd Preifat**

11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu mai’r cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer defnyddio ceir preifat, beiciau modur a beiciau pedal ddylai fod y cyfraddau teithio uchaf sy’n daladwy ynghyd ag unrhyw ychwanegiad teithwyr.

11.2 Mae'r cyfraddau milltiroedd ar gyfer cerbydau preifat fel y'u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi eu nodi yn **Atodlen 3**.

11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei gerbyd/cherbyd preifat at ddibenion dyletswydd gymeradwy, rhaid i'r cerbyd fod wedi ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod pan ofynnir amdano.

**12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus**

12.1 **Teithio Rheilffordd/Bws**

Oni bai yr awdurdodwyd yn wahanol, bydd tocynnau trên yn rai ail ddosbarth.

Bydd y Gwasanaethau Dinesig ac Aelodau yn prynu’r tocynnau trên a bws angenrheidiol ar ran Aelodau cyn siwrneiau. Mewn achos annhebygol lle y bydd angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, ad-delir taliad pan gyflwynir y tocyn a ddefnyddiwyd a/neu dderbynneb.

12.2 **Prisiau Tacsi**

Dim ond pan fydd eu defnydd wedi ei awdurdodi ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus rhesymol ar gael y bydd costau tacsi yn cael eu had-dalu, neu os oes gan Aelod angen personol penodol. Dim ond pan gyflwynir derbynneb y ceir ad-daliad.

12.3 **Teithio Dramor**

Dim ond pan fydd y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu) neu’r Rheolwr Cyllid Corfforaethol wedi ei awdurdodi y caniateir teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod. Bydd y Gwasanaethau Dinesig ac Aelodau’n trefnu’r teithio a’r llety.

12.4 **Treuliau Teithio Eraill**

Bydd gan aelodau hawl i gael ad-daliad o ffioedd tollau, ffioedd parcio, parcio mewn garej dros nos a threuliau angenrheidiol eraill sy'n gysylltiedig â theithio. Dim ond pan gyflwynir derbynneb y ceir ad-daliad.

**13. Llety Dros Nos**

13.1 Dim ond pan fydd busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy y caniateir aros dros nos, neu os yw'r lleoliad mor bell fel y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu) neu'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol.

13.2 Bydd y Gwasanaethau Dinesig ac Aelodau'n bwcio llety dros nos. Lle bynnag y bydd hynny'n bosibl, telir am y llety dros nos ymlaen llaw neu ei anfonebu.

13.3 Dim ond mewn argyfwng y caniateir i Aelod fwcio llety dros nos yn uniongyrchol. Dim ond pan gyflwynir derbynneb y gwneir ad-daliad a bydd hwn ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac nad yw'n fwy na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

**14 Lwfans Cynhaliaeth**

14.1 Mae'r gyfradd cynhaliaeth ddydd i gwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn perthynas â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan na fydd yn cael ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) wedi ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cynnwys cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, ar yr amod bod hawliad o'r fath yn cael ei ategu gan dderbynneb(au).

14.2 Ni wneir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn yr Awdurdod.

**15. Hawliadau a Thaliadau**

15.1 Rhaid cyflwyno cais am lwfansau teithio a chynhaliaeth yn ysgrifenedig cyn pen 4 mis o ddiwedd y mis calendr pan fydd hawl i lwfansau yn codi a rhaid i'r derbynebau perthnasol ddod gyda nhw.

15.2 Telir lwfansau gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth trwy gredyd banc uniongyrchol.

**16. Pensiynau**

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**17. Cefnogi Gwaith Aelodau'r Awdurdod**

17.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i Aelodau gael cymorth digonol i gyflawni eu dyletswyddau ac y dylai'r cymorth a ddarperir ystyried anghenion penodol Aelodau unigol. Mae'n ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau

Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y cymorth a ddarperir i Aelodau a dylai gymryd cynigion am gymorth rhesymol i'r cyngor llawn.

17.2 Dylai pob Aelod etholedig ac Aelod Cyfetholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i roi mynediad electronig i wybodaeth briodol.

17.3 Dylai cymorth o'r fath fod heb gost i unrhyw Aelod. Ni ddylid didynnu o gyflogau Aelodau fel cyfraniad tuag at gost y cymorth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu ei fod yn angenrheidiol er mwyn effeithiolrwydd a/neu effeithlonrwydd yr Aelodau.

## 18 Cydymffurfiaeth

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

**Atgoffir yr Aelodau a'r Aelodau Cyfetholedig bod hawliadau treuliau yn destun archwiliad mewnol ac allanol fel ei gilydd.**

## ATODLEN 1

## ATODLEN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2025-26

| | AELODAU SYDD Â'R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL A DDERBYNIWYD |
|---|---|---|
| 1. | Mike Allport | £19,771 |
| 2. | Bernie Attridge | £19,771 |
| 3. | Glyn Banks | £19,771* |
| 4. | Pam Banks | £19,771 |
| 5. | Marion Bateman | £19,771* |
| 6. | Sean Bibby | £19,771 |
| 7. | Chris Bithell | £19,771* |
| 8. | Gillian Brockley | £19,771 |
| 9. | Helen Brown | £19,771* |
| 10. | Mel Buckley | £19,771* |
| 11. | Teresa Carberry | £19,771* |
| 12. | Tina Claydon | £19,771 |
| 13. | David Coggins Cogan | £19,771 |
| 14. | Geoff Collett | £19,771 |
| 15. | Steve Copple | £19,771 |
| 16. | Bill Crease | £19,771* |
| 17. | Paul Cunningham | £19,771 |
| 18. | Rob Davies | £19,771* |
| 19. | Ron Davies | £19,771 |
| 20. | Adele Davies-Cooke | £19,771 |

| | | |
|---|---|---|
| 21. | Chris Dolphin | £19,771* |
| 22. | Rosetta Dolphin | £19,771 |
| 23. | Mared Eastwood | £19,771* |
| 24. | Carol Ellis | £19,771* |
| 25. | David Evans | £19,771* |
| 26. | Chrissy Gee | £19,771 |
| 27. | David Healey | £19,771 |
| 28. | Gladys Healey | £19,771 |
| 29. | Ian Hodge | £19,771 |
| 30. | Andy Hughes | £19,771 |
| 31. | Dave Hughes | £19,771* |
| 32. | Ray Hughes | £19,771 |
| 33. | Dennis Hutchinson | £19,771 |
| 34.. | Alasdair Ibbotson | £19,771 |
| 35. | Paul Johnson | £19,771* |
| 36. | Christine Jones | £19,771* |
| 37. | Richard Jones | £19,771* |
| 38 | Simon Jones | £19,771 |
| 39. | Fran Lister | £19,771 |
| 40. | Richard Lloyd | £19,771* |
| 41. | Dave Mackie | £19,771 |
| 42. | Gina Maddison | £19,771 |
| 43. | Roz Mansell | £19,771 |
| 44 | Allan Marshall | £19,771 |
| 45. | Hilary McGuill | £19,771 |
| 46. | Ryan McKeown | £19,771 |
| 47. | Billy Mullin | £19,771 |
| 48. | Debbie Owen | £19,771 |
| 49. | Ted Palmer | £19,771* |
| 50. | Andrew Parkhurst | £19,771 |
| 51. | Mike Peers | £19,771 |
| 52. | Michelle Perfect | £19,771 |
| 53. | Vicky Perfect | £19,771 |
| 54. | Carolyn Preece | £19,771 |
| 55. | David Richardson | £19,771 |
| 56. | Ian Roberts | £19,771 |
| 57. | Dan Rose | £19,771 |
| 58 | Kevin Rush | £19,771 |
| 59. | Dale Selvester | £19,771 |
| 60. | Jason Shallcross | £19,771 |
| 61. | Sam Swash | £19,771* |
| 62. | Linda Thew | £19,771 |
| 63. | Linda Thomas | £19,771* |
| 64. | Ant Turton | £19,771 |
| 65. | Roy Wakelam | £19,771 |
| 65. | Arnold Woolley | £19,771 |
| 67. | Antony Wren | £19,771 |

| | **HAWL I GYFLOGAU UWCH-SWYDDOG (yn cynnwys cyflog sylfaenol)** | | **SWM BLYNYDDOL CYFLOG UWCH-SWYDDOG** |
|---|---|---|---|
| | **SWYDD** | **AELOD** | |
| 1. | Arweinydd y Cyngor | Dave Hughes | £66,727 |
| 2. | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Trawsnewid, Twf a Lle | Richard Jones | £43,373 |
| 3. | Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles | Christine Jones | £43,373 |
| 4. | Aelod Cabinet Priffyrdd, Asedau a Gwarchod y Cyhoedd | Ted Palmer | £40,036 |
| 5. | Aelod Cabinet Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol | Linda Thomas | £40,036 |
| 6. | Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol | Paul Johnson | £40,036 |
| 7. | Aelod Cabinet Cabinet Tai a Chymunedau | Helen Brown | £40,036 |
| 8. | Aelod Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio, Cefn Gwlad a Thwristiaeth | Chris Dolphin | £40,036 |
| 9. | Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden | Mared Eastwood | £40,036 |
| 10. | Aelod Cabinet Gwastraff a Chludiant | Glyn Banks | £40,036 |
| 11. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymuned ac Tai | Marion Bateman | £29,657 |
| 12. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol | Bill Crease | £29,657 |
| 13. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant | Teresa Carberry | £29,657 |
| 14. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Amgylchedd a’r Economi | David Evans | £29,657 |
| 15. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd | Sam Swash | £29,657 |
| 16. | Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf | Carol Ellis | £29,657 |
| 17. | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | Richard Lloyd | £29,657 |

| | HAWL I GYFLOGAU UWCH-SWYDDOG (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL CYFLOG UWCH-SWYDDOG |
|---|---|---|---|
| | **SWYDD** | **AELOD** | |
| 18. | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu | Rob Davies | £29,657 |
| Gellir talu uchafswm o 18 o gyflogau uwch swyddogion i Gyngor Sir y Fflint ac ni aethpwyd y tu hwnt i hyn.<br>Noder bod cyflog uwch swyddog yn cael ei dalu i Gadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, y Cynghorydd Dan Rose. Mae'r taliad hwn yn ôl disgresiwn y Cyngor ac mae y tu allan i gylch gorchwyl y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gymru, a dyna pam nad yw wedi'i ddangos yn y tabl uchod. | | | |

| HAWL I GYFLOGAU DINESIG | | SWM BLYNYDDOL CYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| **SWYDD** | **AELOD** | |
| Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor) | Mel Buckley | £29,657 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig (Is-gadeirydd y Cyngor) | Debbie Owen | £23,726 |

| HAWL FEL CYFETHOLEDIGION STATUDOL | | SWM LWFANSAU CYFETHOLEDIGION |
|---|---|---|
| **SWYDD** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | Julia Hughes | £268 Ffi Ddyddiol<br>£134 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Safonau | David Wynn Davies | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Safonau | Jacqueline Guest | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Safonau | Mark Morgan | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Safonau | Gill Murgatroyd | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Safonau | Roz Griffiths | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid | Lynn Bartlett | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid | Wendy White | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |

| HAWL FEL CYFETHOLEDIGION STATUDOL | | SWM LWFANSAU CYFETHOLEDIGION |
|---|---|---|
| **SWYDD** | **AELOD** | |
| Aelod o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid | Lisa Allen | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid | Swydd wag | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid | Swydd wag | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Rev Brian Harvey | £268 Ffi Ddyddiol<br>£134 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Allan Rainford | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |
| Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Claire Blanchard | £210 Ffi Ddyddiol<br>£105 ½ Ffi Ddyddiol |

| **Ad-dalu costau gofal** | |
|---|---|
| Pob Aelod | Hyd at uchafswm o £403 y mis |

| **Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol** | |
|---|---|
| Mae gan bob aelod hawl i hawlio tuag at gostau gofal a chymorth personol, ar gyfer gweithgareddau mae’r cyngor unigol wedi eu dynodi fel busnes swyddogol neu ddyletswydd a gymeradwywyd. | Amrywiol - Penderfyniad 43 |

| **Cymorth i Aelodau – yr hyn a ddarperir o ran ffôn, rhyngrwyd neu e-bost (gweler Penderfyniad 6)** | |
|---|---|
| Cymorth Ffôn i Aelodau Gweithredol | Ffonau symudol wedi eu darparu i Aelodau’r Cabinet |
| Cymorth Ffôn i Gadeiryddion Pwyllgorau | Yn gynwysedig yn y lwfans band eang o hyd at £30 y mis i bob Aelod etholedig. |

| | |
|---|---|
| Cymorth Ffôn i bob Aelod arall | Yn gynwysedig yn y lwfans band eang o hyd at £30 y mis i bob Aelod etholedig. |
| Mynediad i E-bost i Aelodau Gweithredol | Ie |
| Mynediad i E-bost i Gadeiryddion Pwyllgorau | Ie |
| Mynediad i E-bost i bob Aelod arall | Ie |
| Cymorth Rhyngrwyd i Aelodau Gweithredol | Mae Wi-fi wedi ei alluogi ar IPads a roddwyd i Aelodau'r Cabinet<br>Cynigiwyd lwfans band eang o hyd at £30 y mis i bob Aelod etholedig. |
| Cymorth Rhyngrwyd i Gadeiryddion Pwyllgorau | Cynigiwyd lwfans band eang o hyd at £30 y mis i bob Aelod etholedig. |
| Cymorth Rhyngrwyd i bob Aelod arall | Cynigiwyd lwfans band eang o hyd at £30 y mis i bob Aelod etholedig. |

## ATODLEN 2

**Dyletswyddau cymeradwy**: -

- mynychu cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o gorff o'r fath;

- mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;

- mynychu unrhyw gyfarfod arall yr awdurdodir ei gynnal gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill;

- dyletswydd a gyflawnir at ddibenion neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Cabinet;

- dyletswydd a gyflawnir yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;

- dyletswydd a gyflawnir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth gan yr Awdurdod sy'n grymuso neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio adeiladau;

- mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;

- y dyletswyddau canlynol sydd wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor:

1. a) Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan Bwyllgor o'r Cyngor neu gan y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog priodol mewn ymgynghoriad â Chadeirydd neu Is-gadeirydd y Cyngor.
2. b) Unrhyw bresenoldeb sy'n ofynnol gan reoliadau ariannol neu Reolau Sefydlog Contract.
3. c) Unrhyw bresenoldeb a awdurdodwyd/sy'n ofynnol gan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor (e.e. presenoldeb ar gyfer dibenion ymgynghori).
4. d) Presenoldeb Swyddog o'r Cyngor ar fusnes Ward.
5. e) Presenoldeb Swyddog o'r Cyngor ar fusnes y Cyngor.
6. f) Presenoldeb i archwilio dogfennau cefndir o dan Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972.
7. g) Unrhyw bresenoldebau eraill a awdurdodwyd yn benodol gan Bwyllgor, Cabinet neu'r Cyngor.
8.

**Pan gynhelir y busnes swyddogol uchod yn ardal y Cyngor, ni fydd hyn yn rhoi'r hawl i dalu lwfans cynhaliaeth ac eithrio pan fo'n ymwneud ag Aelod cyfetholedig sy'n byw y tu allan i ardal y Cyngor.**

## <u>ATODLEN 3</u>

### Cyfraddau Milltiroedd

| | |
|---|---|
| Cerbyd modur preifat o bob maint<br>Hyd at 10,000 milltir<br>Dros 10,000 milltir | <br><br>45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir |

| | |
|---|---|
| Beiciau Modur Preifat<br>Beiciau Pedal | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |
| Ychwanegiad teithiwr | 05 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Mae'r gyfradd cynhaliaeth ddyddiol hyd at uchafswm o £28 ac yn cynnwys cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw'n berthnasol, ar yr amod bod hawliad o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynebau.

Ni chaniateir ad-daliad am ddiodydd alcoholig.

**Aros Dros Nos**

Y lwfansau uchaf ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer unrhyw fan arall. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

**ATODLEN 4**

**Cydymffurfiaeth**

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi ar wefan y cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac Aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau, dim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn berthnasol. Er budd tryloywder, bydd hyn yn cynnwys tâl o'r holl benodiadau gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael eu dal gan aelodau etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifwyr rôl ar gyfer deiliaid swyddi cyflog uwch-swyddog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau a ddisgwylir.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor yr atodlen flynyddol mewn perthynas â Chydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau dim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r atodlen at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol dim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r atodlen yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau/Aelodau cyfetholedig yng nghyfarfodydd y cyngor, cabinet a phwyllgorau ynghyd â dyletswyddau cymeradwy eraill y mae Aelod/Aelod cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad ar eu cyfer.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i Adroddiadau Blynyddol a baratowyd gan aelodau gael eu cyhoeddi ar wefan y cyngor.

- Pan fydd yr Awdurdod yn cytuno ar amnewidiad taledig mewn absenoldeb teulu, bydd yn hysbysu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o ddyddiad pennu’r manylion cyn pen 14 diwrnod gan gynnwys y swydd benodol a hyd yr amnewidiad.